

Bwriad Newid Aerofod Awyrofod Eryri, ACP-2019-58, Parth Perygl (PP) Llanbedr – Cwestiynau a ofynnir yn aml

A yw Awyrofod Eryri yn bwriadu sefydlu Parth Gwahardd Trafnidiaeth Forol yn yr ardal yn unol â sefydlu'r Ardal Perygl Aerofod?

Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw fwriad nag unrhyw ofyniad cyfredol am barth gwahardd trafndiaeth forol yn yr ardal hon ar y funud ac y gall yr holl weithgareddau morol fynd rhagddynt yn ddiogel pan fydd y parth perygl yn weithredol, fel sydd wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf o dan y drefn Parth Perygl Dros Dro. Nid yw'r gweithgareddau hedfan gaiff eu gweithredu o Lanbedr yn beryglus ynddynt eu hunain, ond oherwydd nad yw pob awyren yn gallu cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Rhybudd ANO, mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn mynnu bod y gweithrediadau hyn yn cael eu cynnal o fewn aerofod neilltuedig – h.y. Parth Perygl o fewn cyfundrefn y CAA. Bydd yn ofynnol i'r holl awyrennau fydd yn hedfan o fewn y parth perygl hefyd dderbyn cymeradwyaeth ychwanegol gan y CAA sef Achos Diogelwch Gweithredol (OSC). Pe byddai arolwg o'r OSC yn canfod angen am wahardd trafndiaeth forol dros dro yna buasem yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag sydd bosibl ac yn trefnu gyda rhanddeiliaid i leihau i'r eithaf yr effaith ar unrhyw weithgareddau morol – o safbwynt lleihau'r ardal ddaearyddol a hyd neu barhâd y weithgaredd. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd unrhyw ofyniad o'r fath yn anarferol iawn ac o dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

A yw Aerofod Eryri yn bwriadu cyfyngu mynediad gan y cyhoedd yn ardal y maes glanio fel rhan o weithredu'r Ardal Perygl Awyrofod?

Yn debyg iawn i'r gweithgareddau morol, ni fydd ychwaith unrhyw waharddiadau ar fynediad i'r tir o gwmpas y maes glanio unwaith y bydd y Parth Perygl yn weithredol – e.e. llwybrau cyhoeddus ayyb – eto heblaw mewn amgylchiadau prin ac eithriadol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned Lleol ar unrhyw fater fydd yn berthnasol i'r maes glanio.

A fydd yr Ambiwllans Awyr, neu'r Helicopter Chwilio ac Achub yn parhau i allu cael mynediad i'r Ardal Perygl, hyd yn oed pan fydd yn weithredol?

Bydd. Hyd yn oed pan fydd yr aerofod yn weithredol y gwasanaethau brys fydd yn cael blaenoriaeth.

Sut gallaf ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus?

Gallwch ymateb ar-lein trwy bortal ymgynghori ar-lein y CAA:

<https://airspacechange.caa.co.uk/PublicProposalArea?pid=193>

Gelir hefyd anfon ymatebion ysgrifenedig i:

Newid Aerofod
Canolfan Awyrofod Eryri
Llanbedr
LA45 2PX

Beth yw hyd yr ymgynghoriad cyhoeddus?

Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ar ddydd Llun 7fed Rhagfyr 2020 ac yn parhau am 7 wythnos. Rhaid i'r holl sylwadau ddod i law erbyn hanner dydd ar ddydd Gwener 22ain Ionawr 2021.